

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cyngorydd,

### **PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 3 O bell Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021 am 09:30.**

### **AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. **Datganiadau o fuddiant**  
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. **Cymeradwyaeth Cofnodion** 3 - 14  
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 19 07 21
4. **Cyflenwi Seilwaith** 15 - 22

#### Gwahoddwyr:

Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau  
Cynghorydd Stuart Baldwin - Aelod Cabinet Cymunedau  
Zak Shell - Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol  
Kevin Mulcahy - Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Prifffyrd

5. **Diweddarriad Rhaglen Gwaith** 23 - 32
6. **Materion Brys**

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynchy o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet\_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant

**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

Cynghorwyr

JPD Blundell  
N Clarke  
P Davies  
DK Edwards  
DG Howells  
DRW Lewis

Cynghorwyr

JR McCarthy  
JC Radcliffe  
RMI Shaw  
JC Spanswick  
RME Stirman  
G Thomas

Cynghorwyr

MC Voisey  
LM Walters  
A Williams  
JE Williams

# Agenda Item 3

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 19 GORFFENNAF 2021**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD O BELL  
TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD LLUN, 19 GORFFENNAF 2021, AM 09:30**

## Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

N Clarke  
JR McCarthy  
JE Williams

P Davies  
JC Spanswick  
RE Young

DK Edwards  
LM Walters

DG Howells  
A Williams

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Radcliffe, RMI Shaw a/ac MC Voisey

## Swyddogion:

Meryl Lawrence  
Gill Lewis  
Janine Nightingale  
Jonathan Parsons  
Zak Shell  
Tracy Watson

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu  
Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro  
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau  
Rheolwr Grŵp Datblygu  
Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth  
Swyddog Cymorth Craffu

## Gwahoddedigion:

Cynghorydd Stuart Baldwin  
Cynghorydd Huw David  
Cynghorydd Hywel Williams

Cabinet Member Communities  
Arweinydd  
Dirprwy Arweinydd

## 7. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

## 8. CADARNHAU COFNODION

### PENDERFYNWYD:

Bod Cofnodion y cyfarfod cyfunol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 a'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu ar 26 Ebrill 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, yn dilyn y diwygiadau canlynol:

Tudalen 6, paragraff olaf, y frawddeg olaf:  
"It was about active travel routes and ensuring that well lit connectivity and a nice route through, as well as bringing them past retail and shops, for the **increased footfall and spending.**"

Tudalen 8, y paragraff olaf ond un, ail linell:  
"Planning regulations would dictate how many **parking** planning spaces, particular residential developments would be permitted to have in place."

**9. YMATEB I NEWID HINSAWDD A CHARBON SERO-NET ERBYN 2030**

I ddechrau, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau rywfaint o'r naratif mewn perthynas ag Agenda 2030, cyn gwahodd cydweithwyr o'r Ymddiriedolaeth Garbon i wneud cyflwyniad. Ar ôl y cyflwyniad, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi anfon rhai cwestiynau ynglŷn â'r adroddiad, ond eu bod wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'r cydweithwyr o'r Ymddiriedolaeth Garbon eu cynnwys yn eu cyflwyniad, ond y byddent yn cael eu hateb. Rhoddodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith yr Awdurdod ar Gerbydau Allyriadau Isel lawn yn y depos.

Wedi cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y cwestiynau canlynol:

Roedd Aelod yn pryderu bod trafodaethau wedi canolbwyntio ar yr Awdurdod Lleol, ac unwaith eto â ffocws ar sut y gallai'r cyhoedd chwarae eu rhan, ond pa ran fyddai diwydiant yn ei chwarae a hwythau'n gynhyrchwyr carbon enfawr. Holodd yr Ymddiriedolaeth Garbon am y farn hirdymor ar allyriadau carbon gan ddiwydiannau mawr a'r fyddin.

Eglurodd Uwch Reolwr - Yr Ymddiriedolaeth Garbon fod Llywodraeth Cymru (LIC) wedi gosod targed 2030 ar y sector cyhoeddus oherwydd eu bod yn awyddus i'r sector arwain drwy esiampl. Mae allyriadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1% a 3%, felly roedd gwirionedd yn yr hyn yr oedd yr Aelod wedi'i ddweud am y cyhoedd a'r diwydiant a'r angen i ddylanwadu a gosod targedau arnynt, a hynny gan fod 90% o allyriadau yn deillio oddi yno. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cael ei ariannu'n gyhoeddus ac mae cyfrifoldeb i arwain drwy esiampl, gan gynnwys dylanwadu ar gadwyn gyflenwi'r Cyngor er mwyn sbarduno newid yn y diwydiant, gan mai caffael sy'n gyfrifol am oddeutu 75% o allyriadau'r Cyngor, a nhw yw'r rhai a fydd angen buddsoddi ac ymgymryd â'r her o ddangos i'r Cyngor fod hyn yn derbyn sylw.

Roedd allyriadau diwydiant trwm wedi disgyn yn y gorffennol o dan gyfarwyddeb effeithlonrwydd ynni'r UE, a bu'n rhaid gwario cryn dipyn o arian ar gynnal archwiliadau arbed ynni. Roedd cyrff sector cyhoeddus mwy wedi bod yn rhan o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni blaenorol yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC), ond roedd Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chynnwys cyrff sector cyhoeddus yn y Cynllun Adrodd Ynni a Charbon Syml a ddilynodd. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ddiwydiant trwm a SMEs mawr roi adroddiad ar eu hallyriadau o dan y cynllun hwnnw. Felly roedd llawer o waith rheoleiddio diweddar yn ymwneud â cheisio ysgogi gweithgarwch mewn diwydiant, ond yn amlwg mae angen gosod gofyniad ar y sector cyhoeddus, gyda thargedau sy'n cael eu hystyried fel cyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol yn eu rôl arweiniol a dylanwadol.

Dywedodd Aelod nad oedd yr adroddiad wedi sôn am effaith gweithgynhyrchu yn y fwrdeistref sirol a'r cyffiniau, ond ei fod yn nodi y dylai 75% o'r arbedion ddeillio o waith caffael. Gofynnodd a ddylai'r Awdurdod fod yn prynu gan ddarparwyr lleol a oedd yn allyrru nwyon carbon, a sut y byddai caffael o'r fath yn gweithredu.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod adolygiad o'r strategaeth caffael yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, gan weithio gyda WRAP Cymru a'r Adran Gaffael. Roeddent yn ceisio cynghori'r ffordd orau o gyfeirio gwariant yn yr economi leol, sut i wario'n fwy cynaliadwy gan feithrin a chefnogi busnesau lleol, rhywbeth a fyddai hefyd yn lleihau costau milltiroedd ac allyriadau carbon. Roedd yn cydnabod fod y Rheolau Caffael Corfforaethol yn rhan allweddol o hyn a'u bod yn dangos i'r Awdurdod Lleol beth oedd yn gynaliadwy e.e. cynnrych o ffynonellau cynaliadwy, er y gallai'r rhain fod ychydig yn ddrytach, ac roedd hynny'n rhywbeth i'w ystyried fel rhan o'r gwaith caffael, yn ogystal ag effeithiolrwydd y cwmnïau. Draftiwyd y strategaeth i ganiatáu i'r

Awdurdod Lleol gael y rhyddid i wneud y dewisiadau hynny, ond eglurodd y gallai proses gaffael gynaliadwy arwain at gostau ychydig yn uwch.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr - Yr Ymddiriedolaeth Garbon mai ffiniau'r Cyngor ei hun a ddefnyddiwyd ar gyfer y darn o waith, yn hytrach nag unrhyw ardal ranbarthol neu ôl troed neu strategaeth ardal gyfan. Dywedodd fod gwaith dinas-ranbarth a gwaith cynllunio ynni rhanbarthol yn cael ei wneud a fyddai'n edrych ar ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddiwydiant. Un o'r heriau a fyddai'n wynebu'r Awdurdod Lleol yw'r hyn y gellid ei wneud wrth gydymffurfio â'r rheoliadau caffael cyhoeddus. Roedd Llywodraeth Cymru yn edrych ar hynny ar ôl BREXIT i geisio deall pa ddiwygiadau oedd yn angenrheidiol o ran caffael cyhoeddus, er mwyn helpu i gefnogi perchnogaeth leol, i gadw gwerth yng Nghymru, ac i brynu gan gyflenwyr lleol. Roedd ychydig o offer y gellid eu defnyddio yn y strategaeth, a ffyrdd o weithio i ddylanwadu ac i fandadu caffael carbon isel mewn gweithgareddau ac i gefnogi cyflenwyr i leihau eu hallyriadau.

Nododd Cadeirydd Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 fod hwn yn gwestiwn da gan fod synergedd rhwng gweithrediadau cyhoeddus a phreifat. Er bod gan awdurdodau lleol y gallu i gynorthwyo diwydiant preifat i symud tuag at ddatgarboneiddio, mae'n debyg bod gan ddiwydiant preifat ei yrwyr ei hun hefyd, gan fod 75% o gostau'r ddua ddiwydiant trwm yn y Fwrdeistref Sirol yn gostau ynni. Roedd hwn yn ei hun sbardun a byddent ar flaen y gad o ran edrych ar ffyrdd o gael ynni rhatach h.y. datgarboneiddio gan ddefnyddio grantiau amrywiol y llywodraeth, gan wneud eu cynhyrchu'n fwy effeithlon. Credai hefyd fod barn y cyhoedd yn symud tuag at yr agenda datgarboneiddio. Yn ogystal â hyn, roedd deddfwriaeth gynllunio yn symud i gyfeiriad lle byddai'n rhaid i gwmniau ystyried unrhyw newidiadau a wneir yng ngwaith cynhyrchu'r diwydiant, neu os ydynt am agor gweithfeydd newydd byddai cyfngiadau cynllunio yn cael eu gosod arnynt i sicrhau eu bod yn lleihau carbon.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at raglen Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r defnydd o blastigau untrio trwy gyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig ar gynhyrchwyr i gymhell busnesau i leihau gwastraff. Roedd ymrwymiad hefyd i ddeddfu i foderneiddio'r sector cerbydau er bod llawer o'r pwerau a'r cyfrifoldebau hynny yn nwyo Llywodraeth y DU. Roedd achos cryf o blaid defnydd yr Awdurdod o ddur a phapur a gynhyrchir yn lleol. Mae'r Awdurdod yn awyddus i leihau ei ôl troed carbon yn gyffredinol, ond am y tro, mae'n well o lawer i'r amgylchedd i ddefnyddio dur a gynhyrchir yn lleol, ac mae diwydiant Prydain yn meddu ar rai o'r safonau amgylcheddol uchaf yn y byd. Yn ogystal â hyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r diwydiant pren yng Nghymru, gan helpu o ran swyddi a chynaliadwyedd ond hefyd o ran dal carbon, bioamrywiaeth, ac atal llifogydd. Byddai'r hyn y gellid ei wneud ar dir yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried yn ofalus hefyd, gan weithio gyda phartneriaid i ehangu mentrau plannu coed a choedwigaeth.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 19, paragraff 4.4, sy'n trafod ymgysylltu'n uniongyrchol â Chynnulliad Dinasyyddion, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, a chael Grŵp Llywio o bartneriaid cyflenwi sydd â diddordeb, a gofynnodd am amserlen ar gyfer hyn. Roedd yn cydnabod hefyd fod llawer o waith wedi'i wneud yn y gorffennol o ran plannu coed, ond roedd angen gwneud llawer mwy yn y dyfodol ar gyfer gwrthbwys carbon. Teimlai fod angen ymrwymiad i blannu coed, ar ben yr hyn yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo iddo yn barod, yn enwedig o ystyried fod Canopi Gwyrdd Jiwbilâ Platinwm y Frenhines y flwyddyn nesaf. Nododd fod Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i blannu 60,000 o goed erbyn 2025 a theimlai, er mwyn gwneud i hynny weithio, fod angen llawer mwy o adnoddau, roedd angen iddo ddechrau'n fuan, ac angen iddo ddigwydd yn gyflymach.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai'r Awdurdod Lleol yn plannu 15 mil o goed eleni, gan ddechrau yn yr hydref. Roedd y cynlluniau hynny i ddigwydd mewn chwe ardal wahanol ar draws y Fwrdeistref ar dir y Cyngor, sy'n bwysig

gan mai dim ond os plannir y coed ar dir a reolir gan y Cyngor y caiff ei ystyried fel gwaith dal a storio carbon. Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i Ddiwrnod Gwyrdd, gan weithio gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Aelodau'r Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i hyrwyddo diwrnod yn yr hydref lle gwahoddir cymunedau, plant ysgol ac ati i ddod i gynorthwyo gyda'r cynllun plannu coed. Eglurodd ran arall o fenter y Diwrnod Gwyrdd hefyd, sef bod y Bwrdd Iechyd yn awyddus i bobl weld manteision bod yn yr awyr agored, o arddio, ac o fioamrywiaeth a choedyddiaeth, felly roedd yr agenda'n llawer ehangach na phlannu coed yn unig. Y darn arall o waith oedd Canopi Gwyrdd y Frenhines, ymgyrch genedlaethol i blannu coed i ddathlu Jiwbil Platinwm y Frenhines, rhywibeth yr oedd y Cyngor yn awyddus iawn i fod yn rhan ohono, ac sydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn cael sgyrsiau gyda Choed Cadw, sy'n darparu grantiau, yngylch cynnig cynllun plannu cymunedol y flwyddyn nesaf, lle gallai pobl wneud cais i gael cyllid ar gyfer prynu rhywogaeth o goed neu wrych. Cydnabuwyd bod y Cyngor â sefyllfaedd cyllidebol anodd, ond roedd Agenda 2030 yn eithriadol o bwysig felly roedd angen dod o hyd i ffynonellau cyllid eraill i helpu'r Cyngor ar y daith.

O ran y fforwm Rhanddeiliaid, byddai'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub, y Gwasanaeth Ambiwlans, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, lleoliadau Addysg eraill, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac ati, partiōn a ystyrir yn bartneriaid yn Agenda 2030. Y bwriad oedd sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy lle gellid rhannu arfer gorau a sicrhau bod pawb yn gwneud pethau tebyg gyda gweledigaeth gyson e.e. plannu coed, strategaeth gwefru ULEV gyda'r Bwrdd Iechyd, fflyd drydan gyda'r Heddlu, ac ar gerbydau cynnal a chadw Cymoedd i'r Arfordir. Gwaith partneriaeth yw'r grŵp rhanddeiliaid, gan chwilio am gyfleoedd a rennir. O ran Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, roedd yr Awdurdod Lleol yn awyddus i gysylltu cymaint o bobl â chamau dau a thri.

O ran y fforwm dinasyddion, roedd yn bwysig iawn i'r Awdurdod Lleol gynnig cyfle i ystod eang o bobl yn y gymuned i eistedd ar y fforwm hwn ac i helpu i lunio'r agenda. Roedd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Rheolwr Ymateb i Newid Hinsawdd, a oedd newydd gael ei benodi. Fel rhan o hyn, bu'n meincnodi a'n siarad ag awdurdodau eraill ledled y DU i ddarganfod y ffordd orau o sefydlu'r fforwm, pwy oedd y bobl orau i wahodd, a pha partiōn fyddai â diddordeb. Yr adborth a gafwyd oedd bod angen demograffeg eang ar draws y fwrdeistref, gyda chymaint o bobl o blaid agenda 2030 ag sydd yn ei erbyn, gan y byddai hyn yn herio meddylfryd y cyfranogwyr. Ni allai'r grŵp fod yn rhy fawr, oddeutu 20 i 30 o bobl fyddai'r maint cywir. Gallai pobl gynnig syniadau drwy ddolen / gwefan ar y we, gyda'r grŵp yn cael ei gadeirio gan berson allanol i sicrhau bod yr agenda'n cael ei llywio gan ddinasyddion.

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Aelod fod gweithredu'n digwydd yn awr. Roedd y gwaith diweddaraf ar deithio llesol yn dechrau ym Mhencoed y diwrnod hwnnw, a chyfeiriodd at y Rhaglen Gyfalaf sy'n mynd i'r Cabinet a'r Cyngor ac sy'n cynnwys cynnig i buddsoddi £2.85m yn fwy mewn teithio llesol, cynnig ar gyfer buddsoddiad o £178k yn Nepo Bryncethin ar gyfer datblygu'r capaciti pŵer solar yno, a buddsoddiad o £2.89M yn Rhwydwaith Gwres Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal â hyn, roedd y gwaith o blannu coed yn cael ei archwilio, er mai un ffrwd oedd hon ac roedd llawer o ffrydiau gwaith yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, ac roedd angen cyflawni mewn partneriaeth hefyd, gan mai un o'r tirfeddianwyr mwyaf oedd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Holodd Aelod beth y gallai'r Awdurdod ei wneud i addysgu pobl i roi'r gorau i dorri coed sydd â dim o'i le arnynt.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y ddarpariaeth statudol yn caniatáu rhoi Gorchymyn Cadw Coed (TPO) ar y coed sydd â mwyaf o angen eu gwarchod, ond roedd yn rhaid cydnabod bod rhaid iddynt feddu ar nodwedd benodol

sy'n golygu dylid eu diogelu. Pe bai coeden â Gorchymyn Cadw Cael yn cael ei thorri, roedd dirwy o hyd at £2k a byddai'n rhaid rhoi coeden arall yn ei lle, a byddai hyn yn cael ei orfodi. Fodd bynnag, roedd angen mynd ymhellach oherwydd, fel rhan o agenda 2030, roedd addysg a chynllun cyfathrebu yn allweddol. Mae'n anodd iawn atal pobl rhag torri coed, felly mae angen mynd ati yn awr i addysgu ac i apelio at synnwyr a chalonnau pobl, a dangos pa mor fuddiol ydynt i'r amgylchedd.

Gofynnodd Aelod a oedd cynlluniau i annog gweithio cyfunol, neu i werthu neu uwchraddio adeiladau cyngor sy'n aneffeithlon o ran ynni, efallai gellid defnyddio ond un ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gwerthu'r lleill, neu efallai gellid eu hadnewyddu fel eu bod yn effeithlon o ran ynni, neu eu defnyddio fel fflatiau, yn hytrach nag adeiladu mwy o dai ar dir a allai fod yn fannau gwyrdd.

Dyweddodd yr Arweinydd fod gweithio gartref, lle bynnag y bo modd, yn parhau i gael ei annog, a'r adborth gan y rhan fwyaf o'r staff oedd eu bod yn ei ffafrio, felly roedd arbedion o ran costau ac roedd yn well i'r amgylchedd oherwydd bod llai yn teithio i'r gwaith. Roedd lefelau salwch hefyd wedi gostwng, felly roedd yr Awdurdod Lleol wedi gweld budd o hynny. Fel rhan o adolygiad ehangach a oedd yn cael ei gynnal, roedd anghenion llety'r swyddfa yn cael eu hystyried, ac yn y dyfodol byddai'r Awdurdod yn ceisio gwneud arbedion pellach, er bod costau eisoes wedi gostwng yn sylweddol, ac mae ôl troed cyffredinol yr ystâd wedi gostwng hefyd ers datgomisiynu Sunnyside House. Roedd y Prif Weithredwr yn paratoi adroddiad ar anghenion Llety Swyddfa ac roedd adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo. Roedd datganiadau o ddiddordeb yn cael eu harchwilio yn rhai rhannau o'r ystâd, felly roedd nifer o opsiynau i'w hystyried.

Holodd Aelod, gan nad oedd llinell sylfaen wedi'i sefydlu, sut y gwyddys bod digon o adnoddau dynol ac ariannol wedi'u dyrannu i'r ymdrech i leihau allyriadau carbon, gan nad oes sicrwydd y bydd cyllid allanol ychwanegol i'w gael dros yr wyth mlynedd nesaf. Gofynnodd sut y daethpwyd i'r casgliad y byddai £215k yn cael ei ddyrannu gan y Cyngor, ac a fyddai dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro cynnydd ar dargedau yn flynyddol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ar y trywydd iawn. Gofynnodd hefyd a fyddai unrhyw gosbau pe na bai'r Awdurdod yn cyrraedd y targed carbon niwtral net erbyn 2030.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod £215k o'r gyllideb wedi'i ddyrannu ar gyfer costau staffio'r Rheolwr Ymateb i Newid Hinsawdd, Rheolwr y Rhaglen a chyflwyno'r Ymddiriedolaeth Garbon yn unig. Ar hyn o bryd, nid oedd cyfalaf na refeniw wedi'i ddyrannu ar gyfer y cynllun gweithredu, er mai'r gobaith erbyn yr hydref oedd i'r cynllun gweithredu gael ei orffen gyda llinell amser. Byddai costau'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu, a nododd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y byddai angen £10m o gyllid arnynt i ymgymryd â chynlluniau ychwanegol er mwyn cyrraedd 2030. Roedd 80% o'r cyllid wedi dod o grantiau, gyda'r Prifddinas-Ranbarth, Llywodraeth Cymru a CLILC yn cynnig grantiau ac arian ar gyfer gwahanol rannau o'r agenda datgarboneiddio. Roedd yn ansicr beth fyddai ar gael yn y dyfodol, ond yn amlwg ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu ei gyflawni ar ei ben ei hun a byddai'n rhaid iddo chwilio am ffynonellau cyllid allanol ar gyfer y rhaglen hon. Wrth symud ymlaen, y bwriad oedd cwblhau'r llinell sylfaen, llunio'r cynllun gweithredu, gwneud y dadansoddiad bwlcw, gwneud y gwaith costio crystal ag y gellid ei wneud, ac yna ymgynghori ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn yr hydref. Wedi hynny, byddai adroddiad yn cael ei wneud i'r Cabinet a'r Cyngor am benderfyniad i gymeradwyo parhau â'r cynllun gweithredu a'r strategaeth honno.

Eglurodd yr Uwch Reolwr - Yr Ymddiriedolaeth Garbon, o ran cyllidebau cyfalaf, fod angen i'r agenda carbon isel gael ei gynnwys ym mhob penderfyniad e.e. peidio â gwario arian cynnal a chadw ar osod boeleri newydd ond yn hytrach i edrych ar ddatrysiau gwres carbon isel. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi diffinio eto beth allai

ddigwydd pe na bai targedau'n cael eu cyrraedd, gan eu bod yn dal i lunio adroddiadau monitro Awdurdodau Lleol a Byrddau lechyd, fodd bynnag, roedd cwmnïau cyfreithiol a fyddai'n mynd ar drywydd cyrff corfforaethol, a chyrrf cyhoeddus mae'n debyg, am beidio â chyflawni eu hymrwymiadau.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol, mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Allweddol, fod yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gwneud y gwaith o osod llinell sylfaen ar gyfer yr Awdurdod, ac y byddent yn gadael y feddalwedd a ddefnyddir fel bo modd parhau i fonitro'r allbwn carbon yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru i olrhain perfformiad yn flynyddol. Er nad oedd cyfundrefn gorfodi cosbau ddiffiniedig ar gyfer yr agenda hyd yma, roedd y broses ailgylchu gwastraff wedi dechrau yn yr un modd, gyda thargedau a gosod cwysi, a chyn hir roedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd methu â chyrraedd y targedau hynny yn arwain at gosbau, ac roedd yr un peth yn debygol o ddigwydd gyda hyn hefyd.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 22 yr adroddiad, a oedd yn sôn am y chwe thacsi ULEV, a'n crybwyl pwynt gwefru cyflym ym Maes Parcio Hillsborough Place ym Mhorthcawl, a gofynnodd pam y dewiswyd y maes parcio penodol hwnnw. Holodd hefyd a oedd hi'n bosibl i oleuadau stryd gael eu defnyddio fel mannau gwefru, fel yr oedd wedi digwydd mewn rhai Bwrdeistrefi yn Llundain.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai cyswllt Metro ar gyfer bysiau yn rhan o Gynllun Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac roedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cynnig y pwyntiau gwefru cyflym ar gyfer y tacsis yno ac am dalu am y ddarpariaeth. Cynllun peilot oedd hwn ar gyfer y chwe thacsi, ac os bydd yn llwyddiant yna byddai'r Awdurdod yn eu cyflwyno yn ehangach ar draws y Fwrdeistref, ynghyd â phwyntiau gwefru cyflym ar eu cyfer.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod dyraniad tacsis pob Awdurdod o fewn y Fargen Ddinesig yn seiliedig ar nifer y trwyddedau tacsis. Roedd y pecyn o dacsis yn cynnwys y gwefrwyr cyflym ac fe'i gyrrwyd gan y Fargen Ddinesig ac mae wedi'i glymu i'r potensial ar gyfer cyfleuster bws cludo ym Mhorthcawl. Dylai'r cyfleuster gwefru cyflym fod ar waith erbyn i'r tacsis fod yn weithredol, felly byddent yn gweld defnydd gweithredol drwy'r amser. Byddai cyfleusterau gwefru eraill hefyd yn cael eu cyflwyno mewn meysydd parcio eraill.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol at y cwestiwn ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio goleuadau stryd fel pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan a dywedodd, er y gallai rhai o'r goleuadau stryd mewn ystadau tai newydd fod â'r gallu trydanol i wneud hynny, ni fyddai'r mwyafrif llethol o oleuadau stryd hŷn yn bodloni'r gofynion heb gryn dipyn o fuddsoddiad. Er y gallent fod yn rhan o'r strategaeth, nid gosod pwynt gwefru ar bob golau stryd oedd yr ateb. Holodd yr Aelod beth oedd ystyr 'cyflym' e.e. pa mor hir i wefru tacsi, e.e. 20 neu 30 munud.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu ei fod yn ymwneud â foltedd a watedd. Mae gwefrydd cyflym yn caniatáu mwy o lif pŵer i'r batri, gan olygu y gellir eu gwefru o fewn 30 munud, lle byddai gwefrydd mwy confensiynol angen mwy o amser. Roedd hefyd yn dibynnu ar dechnoleg y batris hefyd, gan na ellid cynyddu'r pŵer yn rhy bell heb wneud difrod i'r pecyn batri.

Diolchwyd i'r swyddogion a phartneriaid o'r Ymddiriedolaeth Garbon am yr adroddiad a'r cyflwyniad i'r Aelodau.

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

1. Bod yr adolygiad nesaf o'r Templed Corfforaethol ar gyfer Adroddiadau yn ystyried cynnwys Adran ar: Goblygiadau Agenda Datgarboneiddio 2030, i gynorthwyo'r holl wasanaethau wrth ddangos sut y maent yn gweithio tuag at Agenda 2030 i sicrhau carbon sero-net.
2. Bod Papur Briffio gyda gwybodaeth am ofynion Gorchymyn Cadw Coed yn cael ei ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor.
3. Bod yr Awdurdod Lleol yn cyflogi Swyddog Coed pwrpasol i weithio mewn dull cydgylltiedig un Cyngor ynghyd â phartneriaid i gyflawni'r ymrwymiadau plannu coed a rennir yn ogystal â menter Canopi Gwyrdd Jiwbil Platinwm y Frenhines.

Bod datblygu'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI), i'w hadrodd ar gyfer monitro perfformiad.

**10. DARPARIAETH GWASTRAFF AR ÔL 2024**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad yngylch y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ar ôl 2024, gan fod y cytundeb ailgylchu casglu gwastraff presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2024. Er bod y contract presennol wedi perfformio'n dda yn erbyn safonau cenedlaethol, dywedodd mai'r anhawster a wynebir oedd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r contract gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol, a rhoddodd grynodeb ohonynt o'r adroddiad. Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad.

Dyweddodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn hysbys bod y cam hwn yn dod, a bod trafodaethau wedi'u cynnal fel Cabinet. Roedd safbwyt Llywodraeth Cymru (LIC) wedi newid, ac efallai y byddai'r targedau hefyd yn newid ond roedd yn amlwg nifer o bethau yn ansicr, felly byddai'n annoeth mynd ymlaen i gyfnod caffael yr adeg honno.

Dyweddodd Aelod ei fod braidd yn siomedig nad oedd wedi clywed am yr opsiwn o gaffael yn fewnol, ac roedd am drafod y mater. Derbyniodd fod llawer o ddata cadarnhaol a pherfformiad da wedi bod, ond nid oedd y data cymharol gan Awdurdodau Lleol eraill wastad yn briodol gan fod hwn yn gcontract allanol. Roedd angen diolch yn fawr i'r cyhoedd, a oedd wedi cymryd rhan ac wedi gwneud i'r ffigurau weithio. O ran y costau, yr oedd yr Aelod yn pryderu y gallai'r gost isel fod o ganlyniad i delerau ac amodau anffafriol i staff, o gymharu â'r hyn y gallent eu cael pe baent yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Dywedodd yr Aelod y byddai'n hoffi clywed y ddadl a chael y ffigurau, y costau, y dadansoddiad, a'r manteision costau a ddeillia o ddod â phethau'n ôl yn fewnol, gan ei fod o'r farn mai rheolaeth uniongyrchol oedd y ffordd orau o ddelio â'r holl ansicrwydd.

Atebodd yr Aelod Cabinet Cymunedau nad oedd am ddweud na fydd trafodaethau o'r fath yn digwydd; ond ar hyn o bryd roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r posiblwydd o ofyn am estyniad i'r contract presennol er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Lleol edrych ar yr opsiynau gorau wrth barhau. O ran y ffigurau, roedd 85% o bobl o'r farn bod y gwasanaeth yn gymedrol neu'n well, a byddai'n well ganddo gymedrol na gwael neu wael iawn, gan ystyried ei fod yn wasanaeth a oedd yn derbyn beirniadaeth gan y cyhoedd yn aml. Dywedodd fod yr adroddiad heddiw yn ymwneud ag ymestyn y contract yn hytrach nag thrafod y materion ehangach, ond pan fydd y goblygiadau ehangach hynny yn cael eu trafod gallai hyn ddychwelyd at y Pwyllgor Craffu.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol, o ran yr opsiynau, mai trafodaethau yn y dyfodol fyddent yngylch sut y gallai'r Awdurdod Lleol ddarparu'r gwasanaeth yn y tymor hir. Yn y cyfamser, roedd yr adroddiad hwn yn ceisio archwilio'r

holl resymau dros yr ansicrwydd, ac mai'r ateb gorau a mwyaf syml ar hyn o bryd oedd cael estyniad byr, o gofio bod yr holl ddata'n dangos bod pethau'n iawn ar hyn o bryd

Dyweddodd yr Aelod nad oedd yn deall pam na ellid cynnal y trafodaethau hynny yn awr a thros y misoedd nesaf, gan mai dyma'n union yr oedd diben craffu.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'r sgyrsiau hynny'n digwydd ynghylch contract yn y dyfodol, ond ei bod ychydig yn rhy gynnar i gael y trafodaethau hynny yn awr oherwydd yr ansicrwydd a'r ffactorau anhysbys. Roedd yn deall bod yr Aelodau'n bryderus, ond yn eu sicrhau y byddai'r trafodaethau hynny'n cael eu cynnal.

Cyfeiriodd Aelod at ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru i osod y cyfrifoldeb am waith gorfodi parcio ar balmentydd ar ysgwyddau'r awdurdodau lleol yn hytrach na'r Heddlu. Roedd yn pryderu y byddai hyn yn effeithio ar fynediad cerbydau sbwriel / ailgylchu mawr at strydoedd eithaf cul. Gofynnodd a fyddai'r Awdurdod yn rhoi gorchmynion rheoleiddio traffig ar waith, a phryd y byddai aelodau lleol yn cael golwg, fesul ward, ar ble y byddai'r rheoliadau'n cael eu caniatáu a lle na fyddent.

Dyweddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod dau newid mawr mewn deddfwriaeth traffig dros y flwyddyn i ddod; terfynau cyflymder 20 milltir yr awr mewn ardaloedd preswyl, a; gwaith gorfodi ar gyfer parcio ar balmentydd. Nid oedd y naill na'r llall mewn grym eto a byddai'r manylion ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. O ran parcio ar balmentydd, ni fyddai'n addas ym mhobman a byddai'n rhaid cael ardaloedd dynodedig lle bydd parcio ar balmentydd yn cael ei ganiatáu. Dywedodd fod pwysau yn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer eleni, a oedd yn nodi bod yr Adran Draffig angen mwy o adnoddau i ddygymod â'r gofynion ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf ac roedd reciwtio ar y gweill i lenwi'r swyddi hynny. Roedd yn ymwybodol bod potensial i hyn gael effaith, a byddai'n rhaid cynllunio'n ofalus iawn a byddai adroddiadau ar hyn yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Aelod at ddinasyyddion yn rhoi bwyd yn eu bagiau glas a'r ymdrechion a wnaed i addysgu preswylwyr i roi bwyd yn y gwastraff bwyd. Roedd hi'n synnu nad oedd ymdrechion mawr i fynd i'r afael â hyn wedi digwydd yn y gorffennol, a theimlai fod angen gweithio gyda'r contractwr i geisio lleddfu'r broblem hon.

Cydnabu'r Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn crybwyl mai dyma un o'r meysydd ffocws dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn i'r Awdurdod Lleol gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70%. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, roedd hwn yn fater mor fawr fel na fyddai llawer o ddiben ceisio adnabod unigolion ac roedd angen iddo fod ychydig yn ehangach. Roedd nifer o ymgyrchoedd ailgylchu yn targedu bwyd eisoes wedi'u gwneud yn y gorffennol, ac roeddent wedi bod yn llwyddiannus yn ôl y mesuriadau a wnaed cyn yr ymgyrchoedd ac ar eu hôl. Er bod hyn yn dal i fod yn broblem roedd pobl yn ymgysylltu â'r gwasanaeth ailgylchu bwyd. Fodd bynnag, roedd cyfle i leihau faint o fwyd a roddir yn y bagiau gan ddefnyddio ystod o fesurau, gan gynnwys rhywfaint o addysg, gweithio gyda'r contractwr, ac yn y pen draw rhyw fath o fesurau gorfodi i hyrwyddo ailgylchu bwyd i'r rhai nad ydynt yn ymwneud yn llwyr â'r gwasanaeth bwyd.

Dyweddodd Aelod nad oedd yn gwbl fodlon â'r dull o geisio ymestyn y contract am 2 flynedd, a gofynnodd am ragor o wybodaeth pam nad ydynt yn mynd ar drywydd tendr cystadleuol. Ychwanegodd nad oedd unrhyw frwdfrydedd mawr i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol, a gofynnodd am gadarnhad pa mor hir fyddai'r estyniad, er nad oedd yn credu ei fod yn cynrychioli dull trwyndl o gaffael cyhoeddus a gwerth am arian. Gofynnodd a oedd y Prif Swyddog Dros Dro Cyllid, Perfformiad a Newid yn credu ei fod yn cynrychioli gwerth am arian ar gyfer y pwrs cyhoeddus.

Dyweddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod y contract presennol wedi'i gaffael mewn amgylchedd cystadleuol, gyda phwysiad o 70% ar gyllid, er mwyn sicrhau gwerth da am arian. Nid oedd yr Awdurdod yn bwriadu ymestyn am y saith mlynedd gyfan, oherwydd byddai hynny'n golygu cynnal trafodaethau am fflyd newydd o gerbydau, a'r problemau y soniwyd amdanynt sy'n golygu na fyddai dewis fflyd newydd o gerbydau yn briodol ar hyn o bryd. Roedd yn ymwneud â chael cwpl o flynyddoedd ychwanegol o'r cerbydau presennol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd hi yn gyfrifol am gaffael mewn gwirionedd, ond roedd yn cydnabod yr hyn yr oedd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol wedi'i ddweud o ran ei fod yn gaffaeliad priodol ac y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i werth am arian. Roedd wedi perfformio'n dda ar draws y dangosyddion o'i gymharu â chontractau sbwriel eraill. Roedd hyn yn ymwneud ag ymestyn y contract, yn hytrach na rhedeg y contract cyfan eto, a bydd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i edrych ar y costau ac ar ddewisidiadau eraill. Nododd y pwysau ar y gyllideb refeniw a chyfalaf pe bai'r Awdurdod Lleol yn dechrau prynu fflyd o gerbydau, byddai hynny yn gost enfawr, ac nid oedd sicrwydd y byddai dod â hyn yn fewnol yn rhoi gwell gwerth am arian. Roedd yr awdurdodau â chasgliad mewnol yn aml yn ei chael hi'n anodd denu staff, a oedd yn fater o enw da i'r Cyngor er nad oedd i'r darparwr.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau sicrwydd i'r Aelodau mai estyniad oedd hwn a byddai dulliau amgen a ffurflenni contract yn cael eu hystyried ac, os oes angen, byddai opsiwn caffael yn cael ei ystyried.

Nododd yr Aelod fod y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol wedi crybwyl bod y contract gwreiddiol gyda Kier wedi'i gaffael gyda gwerth am arian mewn golwg, a gofynnodd sut yr oedd yr Awdurdod Lleol yn gwybod y byddai hyn yn dal i gynrychioli gwerth am arian yn 2024. Siawns na fyddai tendro'r contract i nifer o ddarparwyr yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol feincnodi yn erbyn contractwyr preifat. Pe bai'r contract yn cael ei ymestyn roedd angen eglurhad pellach ar beth fyddai'r bwlch hwnnw, gan fod yr adroddiad yn dweud hyd at saith mlynedd ac nad oedd yn rhoi terfyn ar y raddfa amser.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mai'r bwriad oedd rhoi estyniad o uchafswm o ddwy flynedd er mwyn darparu digon o amser i'r ansicrwydd ddod yn eglur, i'w datrys, ac yna i gaffael contract newydd os mai dyna oedd y dewis oedd yn cael ei ffafrio, ac mai hyd oes y cerbydau presennol oedd dwy flynedd.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn nodi dwy i dair blynedd, ond roedd yn gwbl ddibynnol ar yr hyn y gallai'r Awdurdod Lleol ei gael allan o'r fflyd bresennol.

Nododd yr Aelod, pe bai'r estyniad hyd at dair blynedd, y byddai'n rhwymo dwylo'r weinyddiaeth nesaf yn gyfan gwbl ac nad oedd yn fodlon â hynny.

Eglurodd Cymunedau'r Aelod Cabinet, mewn ymateb i ddatganiad yr Aelod nad oedd brwdfrydedd dros ddod â'r gwasanaeth yn fewnol, nad diffyg brwdfrydedd oedd ond, yn hytrach, nad oedd yr opsiynau hynny wedi'u hymchwilio eto ac felly ni ellid penderfynu a oedd brwdfrydedd neu ddim i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol ynteu i barhau i gael cytundebau allanol. Byddai'r opsiynau'n parhau i gael eu hystyried er mwyn gwneud y penderfyniad ar y ffordd orau ymlaen.

Holodd yr Aelod pam na edrychwyd ar yr opsiynau cyn diwedd cyfnod y contract i arbed yr Awdurdod Lleol rhag bod mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid ymestyn y contract.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau eu bod wedi edrych ar y contract, ond bod cymaint o ansicrwydd fel ei bod yn annoeth gwneud y penderfyniadau hynny ar hyn o bryd yn seiliedig ar bopeth a oedd yn yr adroddiad. Roedd angen datrys ar yr ansicrwydd hynny i sicrhau bod y contract cywir yn cael ei gaffael.

Diolchodd Aelod i'r Aelod Cabinet am gadarnhau bod yr holl opsiynau'n dal ar y bwrdd, ac ailadroddodd bwyntiau a wnaed gan yr Aelod blaenorol, ond roeddent yn teimlo'n siomedig nad oedd yr opsiwn mewnol ac opsiynau eraill bellach yn cael eu trafod fel rhan o'r adroddiad.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei phwynt eto, sef bod cymaint o ansicrwydd ar hyn o bryd na fyddai trafod yr opsiynau hynny yn benderfyniad gwybodus. Does dim modd meinchnodi contract newydd os nad yw'r targedau ar gyfer ailgylchu yn hysbys, heb wybod a fyddai'r cynllun poteli a'r safonau amgylcheddol yn dychwelyd, heb wybod sut y byddai fflyd ULEV yn edrych. Roedd swyddogion wedi bod yn agored ac yn onest ac wedi ymrwymo i ddychwelyd at y Pwyllgor Craffu i drafod y contract newydd ar yr adeg gywir, gan gynnwys trafod y pedwar maes o ansicrwydd gyda'r Aelodau pan oedd mwy yn hysbys amdanyst. Roedd llinell wedi'i thynnu o dan yr hyn a ddigwyddodd yn 2017 ac ni fyddai'r un camgymeriadau'n cael eu gwneud wrth symud ymlaen.

Y cyngor proffesiynol i'r Cabinet oedd nad dyma'r amser cywir, byddai'r ansicrwydd yn cael ei ddatrys a byddai'r trafodaethau hynny'n cael eu cynnal gyda Chraffu.

Dyweddodd Aelodau'r Cabinet fod penderfyniad doeth yn cael ei wneud o ran gwario arian cyhoeddus yn y ffordd orau.

Diolchodd Aelod i'r Swyddogion am yr adroddiad a gofynnodd am y posibilrwydd y byddai cerbydau ULEV yn dod yn rhatach dros y blynnyddoedd i ddod a beth fyddai'r gost bresennol o amnewid y fflyd.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y byddai'n swm mawr o arian a dyna pam fod y gwahaniaeth mewn pris rhwng cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a cherbydau diesel, a phryd yw'r adeg gywir i brynu, mor bwysig i'r Awdurdod Lleol. Byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi prynu ULEV ac yn sicrhau bod grantiau ar gael, a byddai'r Awdurdod Lleol yn awyddus iawn i'w defnyddio i dreialu rhai o'r cerbydau hyn a dechrau darganfod manteision ac anfanteision eu defnyddio, pa mor dda y byddent i'r ardal, yn enwedig gan nad oedd y pwyt tipio yn y MREC yn lleol, pa mor dda oedd y batris, ac ati. Roedd llawer i'w ddysgu dros y flwyddyn nesaf a byddai'n dda gweld rhai yn cael eu treialu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond byddai fflyd gyfan yn costio miliynau lawer ar hyn o bryd.

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliaid canlynol:

Ni allai'r Aelodau gefnogi ymestyn y contract Gwastraff presennol am ddwy flynedd arall heb drafod y dewisiadau, y costau, a chynnal dadansoddiad costau a buddion a gwerth am arian i'r cyhoedd.

**11. Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH**

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliaid canlynol:

Bod adroddiad ar gyflwyno'r **Gorfodi Parcio Ar y Pafin Llywodraeth Cymru** cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor, ar ôl arolygu strydoedd a choladu

## **PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 19 GORFFENNAF 2021**

gwybodaeth ar gyfer Gorchmynion Parcio Traffig posibl, ond cyn iddo gael ei weithredu.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol fel rhan o'r eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

### **PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiad uchod, ac wedi nodi y byddai'r Flaenraglen Waith ac unrhyw ddiweddarriadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf COSC, ac wedi nodi'r Daflen Argymhelliaid Gweithredu Monitro yn Atodiad B.

### **12. EITEMAU BRYS**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:42

This page is intentionally left blank

# Agenda Item 4

